Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: 3 Tachwedd 2009

Teitl: Mesur a phwyso dyfodol ehangu mynediad

Cyfiawnder cymdeithasol a dysgu gydol oes oedd prif themâu trafodaeth lefel uchel rhwng prifysgolion a cholegau Cymru a swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a gynhaliwyd heddiw.

Bydd y cyfarfod yn cyfrannu at lunio dyfodol ehangu mynediad i addysg uwch yng Nghymru o 2010.

Meddai'r Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr CCAUC: "Mae CCAUC a phrifysgolion a cholegau Cymru yn parhau â'u hymrwymiad i ddatblygu'r economi Cymreig drwy weithio'n agos ag unigolion a chymunedau sydd heb draddodiad o fanteisio ar addysg uwch neu ddysgu sgiliau lefel uwch. Rydym hefyd yn awyddus i hyrwyddo economi bywiog a chynaliadwy.

"Daw'r ymrwymiadau hyn wedi i'r Gweinidog Addysg gydnabod bod ehangu mynediad i AU i fyfyrwyr o gefndiroedd anhraddodiadol yn un o gryfderau prifysgolion a cholegau Cymru a bod angen i ehangu mynediad ynddo'i hun gael ei gysylltu'n nes â datblygu'r economi Cymreig a hybu cyfiawnder cymdeithasol."

Canolbwyntiodd trafodaethau heddiw ar faterion a godwyd yn nau adroddiad adolygiad yr Athro Merfyn Jones o addysg uwch a gyhoeddwyd yn gynharach eleni, ac adolygiad yr Academi Addysg Uwch o ehangu mynediad a gyhoeddwyd ddiwedd mis Hydref.

Bydd y deialog strategol gyda'r sector yn cyfrannu at ddatblygiad parhaus strategaeth newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer prifysgolion a cholegau, y bwriedir cyhoeddi erbyn diwedd y mis.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i gynyddu cyfleoedd addysg uwch i bobl o bob oedran a phob cefndir drwy hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a dysgu gydol oes i bawb.

Diwedd

Nodiadau:

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â
CCAUC: Emma Raczka, Rheolwr Cyfathrebu, 029 2068 2225
emma.raczka@hefcw.ac.uk

Cynhelir cyfarfod yr Academic Addysg Uwch a CCAUC, Dyfodol Ehangu Mynediad yng Nghymru, Dydd Mawrth, 3 Tachwedd 2009 yn Llandrindod Wells.

Yn ei datganiad ar 22 Mehefin 2009, cydnabu Jane Hutt, Gweinidog Llywodraeth Cynulliad Cymru dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, gryfderau amlwg y sector addysg uwch yng Nghymru, gan gynnwys y lefel uchel o fodlonrwydd ymysg myfyrwyr, a'i lwyddiant i ehangu mynediad i addysg uwch i fyfyrwyr o gefndiroedd anhraddodiadol ac i greu cwmnïau deilliedig a chodi patentau ar dechnolegau. Cadarnhaodd y Gweinidog mai'r her i brifysgolion a cholegau, wrth ddatblygu darpariaeth ehangu mynediad, oedd sicrhau ei bod wedi'i chysylltu'n fwy strategol â'r themâu priodol yn *Cymru'n* Un, sef datblygu economaidd a chyfiawnder cymdeithasol.

Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** (CCAUC). Mae'n gyfrifol am weinyddu'r cyllid a roir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal:

- addysg mewn sefydliadau addysg uwch (SAUau);
- ymchwil a wneir gan SAUau; a
- chyrsiau addysg uwch mewn colegau addysg bellach.

Mae CCAUC hefyd yn gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon ar gyfer athrawon ysgol ac am gomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Yn ogystal â'i gyfrifoldebau cyllido, mae CCAUC yn cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ar anghenion ariannol, dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.